Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Policy Briefing
Ionawr 2021

# Pontio Cyfiawn i’r Hinsawdd yng Nghymru: Datblygu Fframwaith ar gyfer Gweithredu

## Trosolwg

Gyda deng mlynedd ar ôl i osgoi chwalfa system hinsawdd, fel y rhybuddiwyd gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC), ni fu'r angen i ddatgarboneiddio ein heconomïau erioed yn fwy brys. Mae datgarboneiddio yn her bolisi sylweddol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei huchelgais i gyrraedd targed o 95% o ostyngiad mewn allyriadau erbyn 2050. Fodd bynnag, nid yw datgarboneiddio yn broses syml nac yn deg a bydd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd. Ymhlith y grwpiau a allai deimlo effaith negyddol mae’r miloedd o weithwyr a gyflogir gan y diwydiannau tanwydd ffosil, yn ogystal â phobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd a allai gael eu taro'n anghymesur o galed os daw trydan yn ddrutach o ganlyniad i bolisïau datgarboneiddio ymosodol.



Mae'r syniad sylfaenol o Bontio Cyfiawn - neu newid i economi carbon isel sy'n deg i bawb - yn ceisio sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym yn lliniaru newid yn yr hinsawdd yn arwain at hyrwyddo anghydraddoldebau sosio-economaidd. Fodd bynnag, bydd cyflawni'r nod aruchel hwn a'r siwrnai i 'amgylchedd hinsawdd gyfiawn' yn galw am sgyrsiau gonest, ac anodd ar adegau, yn ogystal â llawer iawn o greadigrwydd ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan, ac yr effeithir arnynt. Ar yr un pryd, nid oes amheuaeth y bydd pandemig byd-eang y Coronafeirws yn cael dylanwad sylweddol ar yr hyn y gellir ac na ellir ei gyflawni, gan gyfeirio at oblygiadau ariannol adeiladu cynlluniau adferiad gwyrdd gwell, a Phontio Cyfiawn i’r hinsawdd wedi’r pandemig.

> **Dylid mapio cyfleoedd i ymgorffori cyfiawnder gweithdrefnol, cyfiawnder dosbarthol, cyfiawnder rhwng y cenedlaethau, a chyfiawnder adferol ar draws y fframwaith Pontio Cyfiawn i’r hinsawdd.**

Isod cyflwynir cyfres ddrafft o gamau a argymhellir i lunio fframwaith ar gyfer datblygu polisïau sy'n arwain at Bontio Cyfiawn. Seiliwyd

yr argymhellion hyn ar ganlyniadau gweithdy a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Mehefin 2020, 'Risgiau a Chyfleoedd ar gyfer Pontio Cyfiawn yng Nghymru'. Gellir defnyddio'r fframwaith hwn i ddatblygu ac asesu polisïau arfaethedig, a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

## Datblygu fframwaith ar gyfer Pontio Cyfiawn i'r hinsawdd yng Nghymru

Y nod yw datblygu dull strategol o gyflawni Pontio Cyfiawn i'r hinsawdd yng Nghymru.  Mae angen i'r dull strategol o ymdrin â'r broses bontio fod yn deg, yn gynhwysol, ac wedi'i adeiladu ar weledigaeth sy'n cael ei gyrru gan y syniad o 'les' cymdeithas, a gweithio tuag at gyflawni'r nodau datblygu cynaliadwy, gyda'r arwyddair arweiniol o 'beidio â gadael neb ar ôl'. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a'r Saith Nod Llesiant; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016); a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019) i gyd yn llwyfannau rhagorol i adeiladu fframwaith Pontio Cyfiawn i'r hinsawdd arnynt.

## Dull gweithredu

Mae'r dull o symud oddi wrth ffynonellau ynni carbon-ddwys yn gofyn am y canlynol:

- Creadigrwydd;
- Gweledigaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar resymeg gadarn;
- Sylfaen wyddonol gadarn o dystiolaeth; a
- Dull gweithredu a seiliwyd ar set o werthoedd craidd sydd â thargedau clir ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir (2050 a'r tu hwnt).

Awgrymir yma gynllun pum cam i gyflawni hyn:

**Cam 1: Asesu'r dystiolaeth wyddonol yn gyflym**

Mae gwersi i'w dysgu o astudiaethau achos economïau lleol sy'n cael eu gyrru gan danwydd ffosil yn pontio i ddiwydiant carbon isel, a cheir enghreifftiau o arfer da yn Ewrop, a rhannau eraill o'r byd, megis Rhanbarth Ruhr yn yr Almaen, Awstralia, Indonesia, a Norwy. Rhaid i fframwaith Pontio Cyfiawn effeithiol dynnu ar y dystiolaeth hon i nodi:

- Ffactorau llwyddiant, heriau, tagfeydd;
- Cyfleoedd i lwyddo a chael yr effaith fwyaf; a
- Dysgu o brofiadau'r gorffennol yng Nghymru, goblygiadau ac effaith bosibl newid, megis cau'r pyllau glo.

Yn fyr, y cam cyntaf yw casglu tystiolaeth ac ateb: Beth sy'n gweithio? Beth sydd ddim? Ble a pham? Dylai hyn adeiladu ar y sylfaen bresennol o dystiolaeth, a gwybodaeth am gyd-destun Cymru, gan gynnwys heriau a chyfleoedd penodol.

**Cam 2: Defnyddio sylfaen wyddonol o dystiolaeth i ddatblygu fframwaith Pontio Cyfiawn i'r hinsawdd**

Dylai fframwaith Pontio Cyfiawn ddefnyddio adolygiad o dystiolaeth wyddonol i wneud y canlynol:

- Nodi ehangder a chwmpas ffurf bosibl fframwaith Pontio Cyfiawn;
- Nodi dangosyddion cymdeithasol a chyfiawnder hinsawdd; a
- Phenderfynu sut gellir ymgorffori'r dangosyddion yn y fframwaith, a'u mesur.

Gellid datblygu'r fframwaith ar draws sectorau allweddol, gan gynnwys ynni, tai, amaethyddiaeth a defnydd tir, trafnidiaeth a hedfan.

Dylid mapio cyfleoedd i ymgorffori cyfiawnder gweithdrefnol (tegwch proses), cyfiawnder dosbarthol (buddion a beichiau gweithred), cyfiawnder rhwng y cenedlaethau (tegwch gweithredu o safbwynt gwahanol grwpiau oedran), a chyfiawnder adferol (mynd i'r afael ag

anghyfiawnder hanesyddol) ar draws y fframwaith Pontio Cyfiawn i'r hinsawdd.

### Cam 3: Nodi blaenoriaethau, tagfeydd a thir cyffredin rhanddeiliaid

Bydd rhaglen Pontio Cyfiawn lwyddiannus yn cydnabod y bydd cynnydd yn erbyn rhai dangosyddion yn fwy perthnasol i rai rhanddeiliaid nag eraill. Er enghraifft, gallai argaeledd cyrsiau ailhyfforddi ar gyfer gweithiwr gwaith glo sy'n wynebu cael ei ddiswyddo fod yn fwy perthnasol iddyn nhw na grantiau trydaneiddio cerbydau ar gyfer cwmni cludo nwyddau.

Cyfeirir at y broses o ddeall gwahanol flaenoriaethau a thagfeydd posib ar draws ystod o wahanol randdeiliaid fel 'dadansoddiad aml-raddfa o randdeiliaid ac actorion cymdeithasol'. Diffinnir rhanddeiliaid fel unigolion, grwpiau, neu sefydliadau allweddol mae menter arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt (naill ai'n negyddol neu'n gadarnhaol), neu'r rhai a all effeithio ar ganlyniad y fenter (pan yw menter yn broses o drawsnewid). Gallai rhanddeiliaid fod yn fuddiolwyr, cefnogwyr, gwrthwynebwyr, darparwyr adnoddau, neu'n grwpiau bregus. Enghraifft o ddull y Deyrnas Unedig o ymdrin â rhanddeiliaid, a dadansoddi actorion cymdeithasol, fu cynnal Cynulliadau Dinasyddion ar yr Hinsawdd. Fodd bynnag, gellir dadansoddi rhanddeiliaid hefyd trwy gynnal sgyrsiau llai, â mwy o ffocws.

Mae dadansoddi rhanddeiliaid ac actorion cymdeithasol yn gonglfeini sylfaenol i weithredu fframwaith Pontio Cyfiawn yn llwyddiannus, ac ehangu rhaglen Pontio Cyfiawn.  O fewn cyd-destun Pontio Cyfiawn, mae'r math hwn o ddadansoddiad yn cynnwys ymgysylltu â llawer o randdeiliaid i nodi materion sefydliadol a chymdeithasol, a chyfyng-gyngor sy'n ymwneud â gweithredu ynghylch yr hinsawdd. Pwrpas y cam hwn yw cynhyrchu dealltwriaeth ddyfnach a gwell o strategaeth, gwybodaeth, safle, diddordeb, cynghreiriau, yr adnoddau sydd ar gael, dylanwad ac arweinyddiaeth y gwahanol randdeiliaid hyn.

Rhai o'r materion a allai godi yn ystod ymgyngoriadau â rhanddeiliaid yw meithrin gallu / hyfforddiant, bywoliaeth gweithwyr, datblygu sgiliau, ac amddiffyn gweithwyr a'r gymuned. Bydd bod yn ymwybodol o faterion yn helpu i ddatblygu polisïau a all fynd i'r afael â nhw, a'u datrys.



### Cam 4: Archwilio amgylcheddau sy'n galluogi

Mae creu'r amodau cywir i ganiatáu neu alluogi newid i ddigwydd ar gyfer Pontio Cyfiawn llyfn yn galw am ddylunio a gweithredu mentrau a rhaglenni gwaith.   Mae arweinyddiaeth yn allweddol, felly mae penderfynu pwy sy'n gyfrifol am arwain gwahanol fentrau, p'un ai trwy un adran Weinidogol neu fwy, a/neu ar draws sawl plaid, yn ystyriaeth bwysig. Mae angen sicrhau'r adnoddau ariannol i gefnogi Pontio Cyfiawn, ynghyd â pholisi cyllidol cysylltiedig.

### Cam 5: Pennu gwerthoedd craidd

Dylid sefydlu set o werthoedd craidd sy'n sail i Gamau 1 i 4, ac sy'n cydgordio / cysylltu â fframwaith ar gyfer Pontio Cyfiawn i'r Hinsawdd yng Nghymru.  Dylid ystyried y set hon o werthoedd craidd fel yr egwyddorion arweiniol ar gyfer strategaeth Pontio Cyfiawn i'r hinsawdd yng Nghymru. Man cychwyn da ar gyfer nodi gwerthoedd yw ystyried llwyfannau presennol Llywodraeth Cymru e.e. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a'r Saith Nod Llesiant; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016); a

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019), yn ogystal â llwyfannau ehangach, fel y Datganiad Hawliau Dynol; a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan dynnu ar ddiffiniadau o gyfiawnder hinsawdd a Phontio Cyfiawn. Bydd trafodaeth o'r rhain gyda rhanddeiliaid allweddol yn hwyluso drafftio nodyn briffio ar gyfer y polisi gwerthoedd.

## Ffyrdd ymarferol ymlaen

1. Cynnal a chomisiynu asesiad cyflym o'r dystiolaeth wyddonol ynghylch cyfleoedd ar gyfer Pontio Cyfiawn yng Nghymru.
2. Datblygu a mireinio 'Fframwaith Trosglwyddo Cyfiawn i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru', sy'n cofleidio egwyddorion cyfiawnder gweithdrefnol, cyfiawnder dosbarthol, cyfiawnder rhwng y cenedlaethau, a chyfiawnder adferol.
3. Cynnal, cydgrynhoi a syntheseiddio ymgyngoriadau ag ystod eang o randdeiliaid.
4. Nodi'r amodau cywir er mwyn i Bontio Cyfiawn ddigwydd trwy lwyfannau traws-Weinidogol, a sicrhau bod Pontio Cyfiawn yn rhan o gyfrifoldebau Gweinidogol.
5. Sefydlu set o werthoedd cyfiawnder hinsawdd craidd yn sylfaen ar gyfer proses Pontio Cyfiawn yng Nghymru.

**Author:** Yr Athro Tahseen Jafry, Cyfarwyddwr, Y Ganolfan Cyfiawnder Hinsawdd, Prifysgol Caledonian Glasgow.

## I ddarganfod mwy:

Darllenwch adroddiad CPCC – Price, J., Roberts, M., and Bristow, D. (2021) **Tuag at Drawsnewid Cyfiawn yng Nghymru**, Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr Jack Price**

jack.price@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd · UKRI Economic and Social Research Council · Llywodraeth Cymru Welsh Government